**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 9 Ionawr 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | A S Lewis |
| C E Lloyd | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Davies | Prif Bartner Ariannol (Pobl) |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Tim Orrell | Swyddog Cysylltiadau Cefn Gwlad |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Alison Williams | Rheolwr Adnoddau Teuluoedd |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies, D H Hopkins a/ac M Sherwood

---

## 78 Ethol Cadeirydd Dros Dro

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M C Child yn Gadeirydd Dros Dro.

**Bu'r Cynghorydd M C Child (Cadeirydd Dros Dro) yn llywyddu.**

## 79 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Cyhoeddodd y Cynghorydd J E Burtonshaw gysylltiad personol â chofnod 81 fel Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Portmead.

Cyhoeddodd y Cynghorydd C E Lloyd gysylltiad personol â chofnod 81 fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dan-y-graig.

Cyhoeddodd y Cynghorydd M Thomas gysylltiad personol â chofnod 81 fel Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Penclawdd.

## 80 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.

## 81 Gofal Plant 30 Awr Llywodraeth Cymru Grant Cyfalaf - Cais am Grant.

Cyflwynodd Pennaeth Tlodi a'i Atal adroddiad i hysbysu'r panel am y cais am grant cyfalaf 30 awr o ofal plant Llywodraeth Cymru a phroffil dangosol y gwariant a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

**Penderfynwyd** y dylai'r Panel Ariannu Allanol nodi cynnwys y cais a phroffil disgwyliedig y gwariant a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

**Bu'r Cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

## 82 Cefnogi Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Cyflwynodd y Prif Bartner Ariannol (Pobl) adroddiad i roi gwybod i'r panel am ddyraniad cyllid mewn perthynas â chefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn ystod 2018/19.

**Penderfynwyd** y byddai'r panel yn nodi'r goblygiadau sydd yn yr adroddiad ac, yn dilyn hynny, yn cymeradwyo derbyn y grant.

## 83 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 84 Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol.

Rhoddwyd diweddariad ar geisiadau Ewropeaidd arfaethedig a cheisiadau allanol eraill gan y Rheolwr Ariannu Allanol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r 4 argymhelliad, y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.23 pm

**Cadeirydd**